OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2004 No. 1430

# Rheoliadau Cynhyrchion sy'n Tarddu o Anifeiliaid (Mewnforion Trydydd Gwledydd) (Cymru) 2004

## RHAN 6

Cynhyrchion sydd wedi'u Bwriadu ar gyfer eu Mewnforio

### Cynhyrchion sy'n cael eu cludo o dan oruchwyliaeth

**37.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys i gynhyrchion sydd wedi'u bwriadu ar gyfer eu mewnforio ac y mae'n ofynnol, o dan unrhyw gyfarwyddeb, penderfyniad neu reoliad a restrir yn Atodlen 2, iddynt gael eu cludo o dan oruchwyliaeth milfeddyg o'r man archwilio ar y ffin lle cawsant eu cyflwyno gyntaf i'r tiriogaethau perthnasol i'w sefydliad cyrchfan.

(2) Ni chaiff neb symud cynnyrch y mae'r rheoliad hwn yn gymwys iddo o fan archwilio ar y ffin oni bai ei fod wedi'i gynnwys mewn cynhwysydd sy'n ddiogel rhag gollyngiadau neu gyfrwng cludo sydd wedi'i selio gan swyddog i'r Comisiynwyr neu gan y milfeddyg swyddogol wrth y man archwilio hwnnw ar y ffin.

(3) Rhaid i'r person sy'n gyfrifol am gynnyrch y mae'r rheoliad hwn yn gymwys iddo ac unrhyw gludydd y mae o dan ei ofal am y tro sicrhau bod y cynnyrch yn cael ei gludo yn ddi-oed i'w sefydliad cyrchfan, a bod y dystysgrif cliriad milfeddygol a ddyroddwyd mewn perthynas â'r cynnyrch yn mynd gydag ef nes iddo gyrraedd ei sefydliad cyrchfan.

(4) Pan fydd tystysgrif cliriad milfeddygol wedi awdurdodi mewnforio cynnyrch y mae'r rheoliad hwn yn gymwys iddo at ddibenion penodol fel y'u disgrifiwyd yn rheoliad 36(c)(ii), rhaid i'r person sy'n gyfrifol am y cynnyrch ac unrhyw gludydd sydd â gofal am y tro sicrhau ei fod yn aros o dan oruchwyliaeth y Comisiynwyr yn unol â'r weithdrefn T5 y darperir ar ei chyfer yn Erthyglau 471 i 495 o Reoliad y Comisiwn (EEC) Rhif 2454/93 sy'n gosod darpariaethau ar gyfer gweithredu Rheoliad y Cyngor (EEC) Rhif 2913/92 yn sefydlu'r Cod Tollau Cymunedol(**1**) nes iddo gyrraedd ei sefydliad cyrchfan.

(5) Rhaid i weithredydd sefydliad cyrchfan neu warws storio drosiannol roi hysbysiad ysgrifenedig ar unwaith i'r milfeddyg, sy'n gyfrifol ar ran y Cynulliad Cenedlaethol neu'r Asiantaeth am y sefydliad cyrchfan neu'r warws storio drosiannol, fod unrhyw gynnyrch y mae'r rheoliad hwn yn gymwys iddo wedi cyrraedd yno.

(6) Rhaid i weithredydd sefydliad cyrchfan sicrhau bod cynnyrch y mae'r rheoliad hwn yn gymwys iddo yn cael y driniaeth yn y sefydliad cyrchfan a ragnodir ar ei gyfer gan y gyfarwyddeb berthnasol, y penderfyniad perthnasol neu'r rheoliad perthnasol a restrir yn Atodlen 2.

(**1**) OJ Rhif L253, 11.10.93, t.1, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1335/2003 (OJ Rhif L187, 26.7.2003, t.16).